# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| |
|---|
| **Pwyllgor: Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod: 7 Mehefin 2012** |
| **Pennaeth Gwasanaeth Perthnasol: Lynn Ball** |
| **Aelod Portffolio Perthnasol: Y Cyngh. John Chorlton** |

## **Pennawd yr Adroddiad:-** Adroddiad Blynyddol **-** Ceisiadau am Fynediad i W**ybodaeth** yn 2011 - 2012

1.0 **Pwrpas yr Adroddiad -** Darparu gwybodaeth ynghylch ceisiadau am fynediad i wybodaeth yn ystod 2011/12 .

2.0 **Materion ar gyfer Sgriwtini -** Nodi'r wybodaeth a ddarparwyd

3.0 **Cefndir –** Rhaid i'r Cyngor ddarparu mynediad i'w wybodaeth dan gynlluniau statudol gan gynnwys y ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Mae Deddf Diogelu Data 1998 hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer mynediad i wybodaeth.

Daeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i rym yn 2005 ac ers hynny, mae nifer y ceisiadau wedi cynyddu'n raddol ac maent bellach yn faich sylweddol ar adnoddau'r Cyngor. Mae'r ceisiadau'n cael eu casglu a'u cydgysylltu'n ganolog gan y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol a'r Swyddog Gofal Cwsmer Corfforaethol yn y Swyddfa Gwybodaeth Gorfforaethol. Mae'r Swyddfa hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r rheini sy'n gwneud ceisiadau ac i'r Cyngor. Yn ogystal, mae'r Swyddfa yn delio gyda materion Llywodraethu Gwybodaeth. Mae ceisiadau y mae angen ymateb cydlynol iddynt yn cael eu trin fel arfer gan y Swyddfa. Fel arfer, mae ceisiadau yn cael eu trin gan y swyddogion hyfforddedig ym mhob maes gwasanaeth.

**Huw Pritchard**
**Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol,**
**Adain Gyfreithiol**

***Dyddiad**: 21 Mai 2012*

## Atodiadau

Atodiad 1 – Graffiau yn dangos Data 2010 – 2011
Atodiad 2 – Graffiau yn dangos Data 2011 – 2012

## Penderfyniadau perthnasol a wnaed yn flaenorol gan y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith neu’r Bwrdd Gwasanaeth Lleol

Dim penderfyniadau perthnasol blaenorol.

## Papurau Cefndir

Dim

## Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Mynediad i Wybodaeth

### Rhagarweiniad a Chefndir

1. Darperir yr adroddiad hwn i roi gwybodaeth am nifer y ceisiadau am wybodaeth a'r mathau o geisiadau a dderbyniodd y Cyngor yn y cyfnod 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012.

2. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd y Cyngor 629 o geisiadau am wybodaeth.

3. Mae'r ceisiadau wedi eu torri i lawr fesul gwasanaeth fel a ganlyn :-

| **Gwasanaeth** | **Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd** | **Nifer yr ymatebion hwyr** | **Y nifer a ddygwyd i Adolygiad Mewnol** | **Y nifer a ddygwyd i'r SCG** |
|---|---|---|---|---|
| Dinesig | 2 | - | - | |
| Pwyllgorau | 7 | - | - | |
| Corfforaethol (Aelodau) | 7 | - | 2 | |
| Corfforaethol (Awdurdod cyfan) = Angen ymateb cydlynol. | 108 | 6 | 3 | 1 |
| Datblygu Economaidd | 11 | 1 | - | |
| Addysg | 51 | 7 | - | |
| Etholiadau | 1 | - | - | |
| Gwasanaethau Amgylcheddol | 56 | - | - | |
| Cyllid | 76 | 20 | - | |
| Priffyrdd | 52 | - | 1 | |
| Tai | 12 | - | ` | |
| AD / Personél | 22 | 1 | - | |
| TGCh | 22 | 1 | 2 | |
| Cyfreithiol | 20 | 1 | - | |
| Hamdden | 6 | 1 | - | |
| Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd | 5 | - | - | |
| Trwyddedu | 9 | - | - | |
| Arforol | 13 | 1 | - | |
| Cynllunio | 26 | 2 | 1 | 2 |
| Eiddo | 20 | 2 | - | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 79 | 5 | - | |
| Safonau Masnach | 5 | - | - | |
| Gwastraff | 14 | - | - | |
| Polisi | 4 | - | - | |
| Gwasanaethau Ieuenctid | 1 | - | - | |
| **CYFANSYMIAU** | **629** | **48** | **10** | **3** |

4. Y gyfradd ymateb ar gyfer y flwyddyn yw 88.6% ac roedd hyn yn amrywio o 94% yn chwarter 2 i 86% yn chwarter 4.

5. Mae'r nifer o geisiadau a dderbyniwyd fesul math o ymgeisydd i'w gweld isod:-

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Sir | **8** |
| Cwmni Cyfreithiol / Twrnai | **7** |
| Y Cyfryngau | **143** |
| Ymgeisydd Preifat Arall | **275** |
| Plaid Wleidyddol | **3** |
| Grŵp Pwysau | **35** |
| Sefydliad Sector Cyhoeddus | **24** |
| Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol | **6** |
| Aelod Llywodraeth Cynulliad Cymru | **29** |
| Cwmnïau Preifat | **99** |

6. Gall ymgeiswyr nad ydynt yn fodlon gyda'r ymateb ofyn am Adolygiad Mewnol o'r penderfyniad. Yn unol â'r Cod Statudol sydd ynghlwm â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, cofnodir hyn dan y drefn Gwyno Gorfforaethol ac mae'n adolygiad teg a diduedd o'r penderfyniad gwreiddiol. Ar ddiwedd y broses Adolygu Mewnol gall ymgeiswyr, os ydynt yn parhau i fod yn anfodlon, gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

7. Dygwyd 10 cais i Adolygiad Mewnol yn ystod y cyfnod (9 yn llai nag yn 2010/11). Cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol mewn 6 achos. Cadarnhawyd y penderfyniad mewn achos arall ond gydag ymddiheuriad am yr oedi cyn ymateb. Cadarnhawyd y penderfyniad mewn achos arall ond rhyddhawyd peth gwybodaeth. Cadarnhawyd un achos arall yn rhannol yn yr ystyr y cyhoeddwyd rhybudd gwrthod newydd ac yn yr achos sy'n weddill penderfynwyd o blaid yr ymgeisydd oherwydd y casglwyd bod yr ymateb cychwynnol yn annigonol a darparwyd ymateb llawnach gyda'r adroddiad Adolygiad Mewnol. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswydd i ddarparu adolygiad gwrthrychol o benderfyniadau.


8. Yn yr un cyfnod, cyfeiriwyd tri mater i'r Comisiynydd Gwybodaeth oherwydd ymatebion hwyr. Ymatebwyd i bob un ac nid oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach yn y materion hyn.

9. Yn ystod 2011/12, derbyniwyd 7 o Hysbysiadau Penderfynu gan y Comisiynydd Gwybodaeth ond roeddynt oll yn cyfeirio at geisiadau a wnaed yn 2010.11. Roedd yr holl Hysbysiadau Penderfynu yn cadarnhau bod yr eithriadau a ddefnyddwyd wedi eu gweithredu'n gywir ond nodwyd mân-faterion ym mhob achos ond un, er nad oedd y Comisiynydd Gwybodaeth yn dymuno i'r Cyngor gymryd unrhyw gamau pellach.

**Argymhellion:-** Bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad.


## Ceisiadau Gwybodaeth / Information Requests 2011/2012

**Atodiad 1 / Appendix 1**




## Ceisiadau Gwybodaeth / Information Requests 2011/2012

**Atodiad 1 / Appendix 1**




**Ceisiadau Gwybodaeth / Information Requests 2011/2012**




**Ceisiadau Gwybodaeth / Information Requests 2010/2011**

**Atodiad 2 / Appendix 2**



**Ceisiadau Gwybodaeth / Information Requests 2010/2011**

**Atodiad 2 / Appendix 2**



**Ceisiadau Gwybodaeth / Information Requests 2010/2011**

**Atodiad 2 / Appendix 2**

